Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin y Sger**

**Canolfan Integredig i Blant**
**Greenfield Terrace**
**Gogledd Corneli**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF33 4LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 6 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Cylch Meithrin y Sger ym mis Mai 2005 i ddarparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 30 o blant rhwng dwy a thair blwydd oed. Gweithredir y gwasanaeth o ystafell hunangynhwysol o fewn y Ganolfan Integredig yng Ngogledd Corneli, y Pîl. Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan y personau cofrestredig, Pamela Davies a Wendy Rudd, a nhw hefyd yw'r personau â gofal. Gweithredir y gwasanaeth o 8.55am i 11.55am o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 1.15pm i 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Iau. Mae'r gwasanaeth yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cyllid i addysgu plant tair blwydd oed, a chynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf gan Estyn yn 2014.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Canfuom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin y Sger yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Gofelir amdanynt gan staff profiadol a hirsefydlog sy'n adnabod y plant yn dda. Mae'r amgylchedd yn helaeth ac mae amrediad da o adnoddau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn ddigonol. Mae angen gwelliannau mewn rhai meysydd.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad gwnaeth y darparwr y canlynol:

- Ailgynllunio cofrestr y plant er mwyn cynnwys amseroedd presenoldeb
- Darparu copi o'r daflen cofnodi digwyddiadau newydd
- Llunio ffurflen goruchwylio staff;
- Ailgynllunio'r ffurflen beryglon i gofnodi camau a gymerir i leihau unrhyw risgiau a nodir;
- Prynu mat gysgu ar gyfer unrhyw blant sydd eisiau cysgu yn ystod y sesiwn
- Darparu tystysgrif prawf ar gyfer y system wresogi
- Adolygu'r asesiadau risg.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran:

- Addasrwydd y gweithwyr, gan nad oedd gwybodaeth recriwtio wedi'i chynnwys ar gyfer yr holl oedolion a oedd yn gweithio gyda'r plant
- Cyflogi staff, gan nad oedd sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi cael eu cynnal gyda staff

Gwnaethom argymell hefyd y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- Gwarchod dillad y plant yn ystod gweithgareddau chwarae anniben
- Sicrhau bod y staff yn fwy gwyliadwrus o ymddygiad y plant
- Hyrwyddo annibyniaeth y plant ymhellach yn ystod amser byrbryd
- Diweddaru a danfon copi o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth ymlaen

- Sicrhau bod yr holl gofnodion o anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cwblhau yn llawn a'u llofnodi lle bo angen
- Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu dyddio at ddibenion adolygu
- Danfon copi o'r adroddiad ansawdd gofal ymlaen o fewn 28 diwrnod i’w gwblhau.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant ac y maent yn gwneud dewisiadau. Maent yn hapus, wedi ymgartrefu, ac yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae hunangyfeiriedig ac o'u dewis nhw. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog eu datblygiad.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud. Gwrandewir arnynt ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain.

Gwelsom blant yn cyrraedd ac aethant yn syth i chwarae gyda'r gweithgareddau pen bwrdd amrywiol a ddarparwyd iddynt. Gwnaeth grŵp bychan o blant dreulio amser yn chwarae gyda'r iPadiau tra oedd y rhan fwyaf o'r plant wedi dewis chwarae yn yr awyr agored. Gwnaeth y plant ddweud yn glir pa ffrwyth yr oeddent eisiau neu ddim eisiau amser byrbryd, a rhoddwyd dewis iddynt o ddŵr neu laeth i'w yfed. Gwelsom fod y plant yn mynd at staff i ofyn am gymorth i wisgo eu gwisgoedd gwisg ffansi, a chlywsom un plentyn yn dweud, "Dyna ddigon nawr" pan oedd wedi gorffen ei waith gludo.

Mae gan y plant lais da yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â gwahanu oddi wrth eu rhieni yn dda. Mae'r plant wedi ffurfio perthynas glòs â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda.

Gwnaeth bron pob plentyn gyrraedd yn hapus ac ymuno â gweithgareddau chwarae'n gyflym. Roedd unrhyw blant nad oeddent wedi ymgartrefu yn ymgartrefu'n gyflym ar ôl cael eu cysuro. Roedd y plant yn teimlo'n hollol gartrefol ac wedi ymlacio'n llwyr gyda'u gofalwyr. Roeddent yn mynd at y staff yn hyderus i gael sicrwydd a chofleidiau pan oeddent wedi blino. Roedd y plant yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd chwarae ac roeddent yn archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau oedd ar gael. Roeddent yn gyfarwydd â'r trefniadau ac roeddent yn gwybod pan oedd yn amser tacluso. Roedd y plant yn gwenu pan oeddent yn derbyn canmoliaeth am eu cyflawniadau ac ymddygiad da.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn ac maent yn hapus ac yn ddiogel.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cymryd eu tro ac yn dechrau cydweithio yn ystod gweithgareddau grŵp, gyda chymorth gan y staff.

Gwelsom fod y plant yn chwarae gyda'i gilydd am beth amser yn yr hambwrdd tywod yn yr awyr agored, gan gymryd eu tro i rannu'r cynwysyddion a’r rhawiau gwahanol. Roedd angen i'r staff atgoffa rhai o'r plant ieuengaf ynglŷn â bod yn garedig wrth ei gilydd pan oedd anghydfodau yn codi.  Gwelsom ffrindiau yn dal dwylo wrth gerdded i'r basnau i olchi eu dwylo.  Gwelsom fod y plant yn adnabod y drefn yn dda. Clywsom rhai o'r plant yn gweiddi, "amser tacluso" pan oedd yn amser i dacluso ac ar ôl iddynt olchi eu dwylo aethant i chwilio am eu henwau ar y bwrdd ac eistedd yn barod am y byrbryd.

Mae rhyngweithio'r plant yn datblygu'n ddigonol.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant wedi ymgolli yn eu chwarae. Maent yn cynnal diddordeb am gyfnod priodol ac yn symud yn rhwydd ac yn ddiogel rhwng gweithgareddau.

Gwelsom blant yn mwynhau eu cyfleoedd i symud o gwmpas yn rhydd o dan do ac yn yr awyr agored.  Roeddent yn symud yn hapus rhwng y ddwy ystafell chwarae a'r ardal awyr agored.  Roedd y plant yn llawn cyffro yn ystod chwarae dŵr, gwnaethant dasgu'r dŵr ac archwilio'r anifeiliaid oedd yn gorwedd ar waelod y cynwysyddion dŵr.  Gwelsom fod y plant yn adeiladu cestyll tywod yn frwdfrydig, gan lenwi'r cynwysyddion i'r pen a'u troi drosodd i wneud eu cestyll; roeddent yn llawn cyffro wrth ddweud wrthym beth yr oeddent yn ei wneud.  Roedd y plant yn mwynhau palu yn y tywod a chreu patrymau.

Mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac mae ganddynt ddiddordeb yn yr hyn sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, wedi eu cymell ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth gyda rhywfaint o gymorth.

Gwelsom y plant yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, gydag arweiniad ar lafar a rhywfaint o gymorth gan y staff. Roedd ganddynt fynediad at sinciau, dosbarthwyr sebon a thywelion papur ar ôl defnyddio'r toiled. Yn ystod amser byrbryd, gwnaeth un plentyn ar bob bwrdd ddosbarthu'r platiau, a gwnaeth pob plentyn helpu ei hun i'r dewis o ffrwythau a rhoddwyd diod o ddŵr neu laeth iddo, a oedd wedi'i pharatoi ar ei gyfer. Gwelsom rai o'r plant yn cario hambwrdd o lestri brwnt i'r sinc ar ôl byrbrydau.  Gwelsom fod y plant yn gallu adnabod a helpu eu hunain yn hawdd i'r poteli dŵr oedd wedi'u storio ar uchder y plant. Gwnaeth y plant gymryd rhan mewn sesiwn cerddoriaeth a chanu, gan ganu amrediad o ganeuon Cymraeg.  Gwnaethom hefyd eu clywed yn cyfrif wrth ddewis eu darnau o ffrwythau ac yn cyfrif ac yn adnabod lliwiau'r grisiau ar yr adeiladwaith grisiau yn yr awyr agored.  Roedd y plant yn defnyddio'r iPadiau yn hyderus ac yn gywir er mwyn paru siapau a chwblhau posau jig-so electronig.

Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant sydd o dan eu gofal yn dda, ac yn rhoi gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn modd cadarnhaol gan gynnig llawer o ganmoliaeth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Maent yn cynnig byrbrydau iachus ac yn hybu ffyrdd iach o fyw.

Roedd diogelu yn flaenoriaeth uchel a dywedodd staff y buom yn siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i adrodd am bryderon. Gwnaeth y staff ddarparu dewis o ffrwythau yn ystod amser byrbryd. Gwelsom fod y staff yn dilyn arferion hylendid da; gwnaethant olchi'r byrddau a gwnaethant ddilyn y gweithdrefnau priodol ar gyfer paratoi bwyd. Clywsom y staff yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ar ôl chwarae anniben ac ar ôl mynd i'r toiled. Gwelsom fod anghenion y plant yn cael eu diwallu, er enghraifft, pan oedd plentyn wedi blino, cafodd ei gofleidio a'i wneud yn gyfforddus ar gyfer hoe fach. Fodd bynnag, er bod ffedogau ar gael, nid oedd y staff wedi sicrhau bod dillad y plant yn cael eu gwarchod wrth chwarae yn yr hambwrdd dŵr. Gwnaeth dillad un plentyn wlychu'n llwyr a olygai fod angen i'r plentyn newid ei ddillad.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddigon diogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn fodelau rôl da ac maent yn goruchwylio'r plant yn eithaf da. Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn rheoli eu rhyngweithio'n dda.

Ar y cyfan roedd y staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda. Gwelsom staff yn ymgysylltu â phlant, yn sgwrsio â nhw'n barchus, ac yn eu canmol bob amser am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Clywsom y staff yn dweud "Da iawn" nifer o weithiau. Clywsom staff hefyd yn annog moesau da, megis, "Diolch" pan oedd y plant yn dewis eu ffrwythau. Clywsom aelod o staff yn ymateb i blentyn pan ofynnodd ble roedd ei ffrind, gan ateb, "Mae yn yr ysgol fawr ond bydd yn dod yn ôl cyn bo hir i chwarae gyda ti". Gwenodd y plentyn a pharhau i chwarae yn y tywod yn hapus. Roedd y staff yn eistedd ar lefel y plant ar y llawr neu wrth y byrddau ac roeddent yn defnyddio iaith briodol i gyfathrebu â'r plant. Yn gyffredinol, roedd y staff yn goruchwylio pob ardal yn dda, ond ar un achlysur, nid oedd y staff yn effro pan oedd plant yn dadlau dros eitemau'r gegin chwarae a chafodd un plentyn ei fwrw o ganlyniad i hyn. Gwnaethom hysbysu'r staff am y digwyddiad, ac aethant i wirio'r plant yn syth. Clywsom y staff yn defnyddio dulliau i dynnu sylw er mwyn rheoli ymddygiad y plant, ac roedd hyn yn effeithiol.

Mae staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn darparu awyrgylch meithringar a gofalgar ac maent yn ymatebol i anghenion unigol y plant. Maent yn hyrwyddo sgiliau hunangymorth y plant yn gymharol dda.

Roedd y staff yn ymuno â chwarae'r plant a chlywsom lawer o chwerthin, ac roedd y plant yn cael hwyl. Gwelsom fod y staff yn ehangu chwarae a dysgu'r plant trwy annog y plant i ddweud wrthynt floc o ba liw yr oeddent yn ei ddefnyddio i adeiladu tŵr ac i gyfrif y blociau. Clywsom y staff hefyd yn trafod siapiau, a dywedodd un plentyn, "Cylch" a gwnaeth yr aelod o staff canmol y plentyn am ei gyflawniad. Roedd y staff yn cadw sylw'r plant tra oeddent yn aros am fyrbrydau a gwelsom ni nhw yn chwarae gêm lle'r oedd y plant yn adnabod ble roedd eu pen, eu llygaid a'u bola. Roedd y staff yn ymuno yn chwarae'r plant a gwnaethant helpu'r plant i wneud paneidiau o de yn y gegin chwarae, a'u cynorthwyo i greu trac trên gan wneud yn siŵr ei fod yn ffitio gyda'i gilydd. Roedd y staff yn defnyddio dŵr a brwshys paent er mwyn creu patrymau ar y lloriau y tu allan a gwelsom fod y plant yn awyddus i gael tro. Roedd y staff hyrwyddo annibyniaeth y plant ar bob cyfle, megis helpu eu hunain i'w hetiau a mynd i'r toiled yn annibynnol, ond gwelsom fod y staff yn paratoi'r holl fyrbrydau ac yn arllwys y diodydd i'r cwpanau ar gyfer y plant amser byrbryd.

Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant ac maent yn hyrwyddo eu dysgu, eu datblygiad a'u hannibyniaeth yn gymharol dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd addas a diogel ar gyfer plant. Mae ardal chwarae awyr agored groesawgar ar gael. Mae cyflenwad da o adnoddau ac offer i ddiwallu anghenion y plant, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gwirio'r amgylchedd a'r adnoddau'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae’r arweinwyr yn nodi unrhyw risgiau i blant a chyn belled ag y mae'n bosibl, yn cael gwared ohonynt neu'n eu lleihau. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae system mynediad allwedd ffob ar waith. Roedd y safle yn hunangynhwysol ac ni all ymwelwyr ddod i mewn i'r adeilad yn ddirybudd. Mae cofnod ymwelwyr yn cael ei gwblhau. Gwelsom wiriadau peryglon dyddiol yn cael eu cynnal ac roedd unrhyw beryglon a nodwyd yn cael eu cofnodi, ond roedd y camau a gymerwyd i leihau'r risgiau wedi’u hepgor o'r cofnodion. Roedd ffurflenni asesu risg ar gael, ond nid oeddent wedi cael eu dyddio at ddibenion gwirio ac adolygu. Roedd tystysgrifau prawf dyfeisiau trydan yn ddilys, ond nid oedd tystysgrif brawf ar gyfer y system wresogi ar gael ar adeg yr ymweliad. Roedd yr ardal awyr agored yn gaeedig ac yn ddiogel. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelwyd cofnodion prawf larwm mwg. Roedd yr arweinwyr wedi derbyn gradd pump am hylendid bwyd.

Mae’r arweinwyr yn gwneud gwaith gymharol dda wrth sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu safle priodol sy'n addas i blant ac yn ysgogol. Mae'r cynllun y safle’n hybu annibyniaeth y plant ac ethos y Cyfnod Sylfaen.

Roedd y safle yn groesawgar ac yn addas ar gyfer plant ac roedd yn darparu amgylchedd priodol ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd y safle wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân. Roedd digon o le ac adnoddau i ddiwallu anghenion y plant, gan gynnwys ardaloedd chwarae amrywiol yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen megis ardaloedd ar gyfer amser tawel, chwarae pen bwrdd, chwarae ar y llawr, chwarae rôl, creu marciau, mathemateg, adeiladu ac ardal chwarae awyr agored. Roedd y safle'n hybu annibyniaeth yn dda, roedd y plant yn gallu helpu eu hunain i adnoddau a mynd i'r toiled yn annibynnol. Gwelsom gyfleoedd da ar gyfer symud o gwmpas yn rhydd o dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn effeithiol wrth sicrhau addasrwydd yr amgylchedd.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

At ei gilydd roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at gelfi ac offer addas ar gyfer eu hanghenion.
Roedd cyflenwad da o deganau ac adnoddau ar gael a oedd yn briodol ar gyfer eu hoedrannau, eu hanghenion a'u datblygiad o dan do ac yn yr awyr agored.  Fodd bynnag, gwelsom blentyn yn cysgu ar ddwy glustog oedd wedi'u gadael ar y llawr mewn ardal oedd wedi'i neilltuo.  Dywedodd yr arweinydd wrthym nad oedd plant yn cysgu'n aml yn ystod sesiwn. Roedd gan y plant fynediad at ardal awyr agored gaeedig oedd wedi'i gwella a'i datblygu ers yr arolygiad blaenorol.  Roedd y teganau a'r offer a welwyd yn lân ac mewn cyflwr da.  Roedd rhywfaint o dystiolaeth o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi dathlu rhai gwyliau megis Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau, ar y cyfan, fod digon o deganau, adnoddau ac offer ar gael.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Ar y cyfan mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso er mwyn hyrwyddo gwelliant. Mae'r staff a'r adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi datblygu perthnasau da iawn â'r rhieni a'r ysgol leol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn cynnal polisïau, gweithdrefnau a chofnodion yn foddhaol. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella.

Roedd datganiad o ddiben ar waith, ond nid oedd yn cynnwys ystod oedran y plant y gofelir amdanynt a manylion y gwasanaeth a ddarperir megis cyfleusterau ac arferion a thelerau ac amodau'r gwasanaeth. Nid oedd arweinwyr wedi dyddio'r ddogfen at ddibenion adolygu ac nid oedd wedi ei diweddaru gan fod y ddogfen yn datgan bod y gwasanaeth yn cael ei arolygu'n flynyddol. Roedd amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau, ond nid oeddent i gyd wedi eu dyddio at ddibenion adolygu. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod matrics ar gyfer dyddiadau adolygu wedi'i gwblhau ond nid oedd ar gael ar adeg yr arolygiad. Roedd polisïau newydd megis y polisi'r Ddyletswydd Atal wedi'u creu ers yr arolygiad blaenorol. Roedd cofnodion y plant megis contractau, ffurflenni gwybodaeth, cydsyniad argyfwng meddygol a chofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, er bod anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cofnodi yn y dyddiadur/llyfr, nid oeddent bob amser yn cael eu cydlofnodi gan rieni/gofalwyr. Dywedodd yr arweinydd wrthym y byddai'r gwasanaeth yn cyflwyno taflen cofnodi digwyddiadau newydd fyddai'n cynnwys 'map o'r corff'. Gwelsom fod cofnodion datblygu yn cael eu cynnal yn ogystal â ffurflenni proffil a chofnodion Wellcom. Roedd cofrestr yn cael ei chynnal ar gyfer y plant a'r staff, ond nid oedd yn cynnwys union amseroedd presenoldeb y plant a'r staff. Dywedodd yr arweinydd wrthym fod yr holl blant a'r staff yn cyrraedd ac yn gadael ar yr un amser a phe bai unrhyw wahaniaeth byddai nodyn yn cael i'w wneud o'r amser cywir.

Mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso i werthuso eu gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn awyddus i gasglu adborth ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir.

Roedd gan yr arweinwyr system hunanwerthuso, oedd yn cynnwys holiaduron i rieni/gofalwyr. Roedd adolygiad ansawdd gofal yn y broses o gael ei gwblhau a gwnaethom edrych ar rai holiaduron oedd wedi'u cwblhau gan rieni. Roedd sylwadau yn cynnwys, ‘Byddwn i’n argymell y Cylch i bawb', 'Rwy'n ddiolchgar iawn am Gylch mor wych, sydd yn cael ei redeg a'i reoli'n dda', 'Rwyf bob amser yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn a

oes gennyf unrhyw broblemau' ac 'Mae fy mhlentyn bob amser yn llawn cyffro ac yn barod i fynychu Cylch!'. Dywedodd yr arweinydd wrthym eu bod wedi nodi maes i'w ddatblygu lle byddai'r staff yn mynychu 'Cynllun Croesi'r Bont' a fyddai'n eu cynorthwyo gyda'u datblygiad/anghenion Iaith Gymraeg. Cytunodd yr arweinwyr i ddanfon copi o'r adroddiad ansawdd gofal at AGC o fewn 28 diwrnod i'w gwblhau.

Mae hunanwerthuso a gwaith cynllunio ar gyfer gwella yn datblygu.

**4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?**

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn modd trefnus. Yn gyffredinol, maent yn dilyn proses recriwtio gadarn ac maent yn hyrwyddo datblygiad y staff. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau.

Gwnaethom samplu tair ffeil staff a chanfod eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr wedi cynnal ffeil recriwtio ar gyfer myfyriwr ar leoliad yn y gwasanaeth, ac nid oedd yr arweinwyr wedi cynnal sesiynau goruchwylio ffurfiol gyda'r staff. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd a thrafodaethau gyda'r staff yn cael eu cynnal, ond ni chofnodir unrhyw wybodaeth ffurfiol. Roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ym mis Medi 2017. O'r pum aelod o staff a oedd yn cael eu cyflogi, roedd pob un ohonynt bron yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 ac roeddent i gyd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd ar gyfer gwarchod plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Roedd rhai aelodau o'r staff wedi gwneud cyrsiau hyfforddi ychwanegol gan gynnwys lleferydd ac iaith, dysgu ag awtistiaeth, iechyd a diogelwch, Elklan a Wellcom. Roedd cymarebau staff i blant yn rhagori ar y gymhareb ofynnol yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth â nhw'n rheolaidd. Maent wedi datblygu cysylltiadau cadarn â'r gymuned a'r ysgol leol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gael i rieni trwy gais, yn ogystal â phecyn i rieni. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn cymryd rhan lawn yn y Cylch, eu bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd a newyddlenni a'u bod yn mynychu digwyddiadau gwybodaeth. Gwnaeth y rhieni y buom yn siarad â nhw roi adborth cadarnhaol ac ni wnaethant godi unrhyw bryderon. Clywsom y staff yn rhoi adborth i rieni ar lafar yn ystod amser casglu plant. Roedd yr arweinwyr yn darparu diweddariadau ar gynnydd y plant i'r rhieni trwy ffurflen adrodd i rieni ac roeddent yn diweddaru'r tudalen Facebook â gwybodaeth y Cylch. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod ganddynt bartneriaethau da ag asiantaethau amrywiol yn ogystal â'r ysgol. Roedd y staff yn mynd â'r plant am deithiau cerdded o amgylch y pentref lleol i'r siopau, yr ardal coetir ac roedd rhieni yn mynychu weithiau. Roedd yr arweinwyr yn cynnal digwyddiadau codi arian weithiau yn ogystal â chael ymweliadau addysgol o'r gymuned leol megis yr heddlu, hylenydd deintyddol a nyrs.

Mae partneriaethau'n gadarn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell hefyd y dylai’r darparwr wneud y canlynol:

- Gwarchod dillad y plant yn ystod gweithgareddau chwarae anniben
- Sicrhau bod y staff yn fwy gwyliadwrus o ymddygiad y plant
- Hyrwyddo annibyniaeth y plant ymhellach yn ystod amser byrbryd
- Diweddaru a danfon copi o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth ymlaen
- Sicrhau bod yr holl gofnodion o anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cwblhau’n lawn a'u llofnodi lle bo angen
- Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu dyddio at ddibenion adolygu
- Danfon copi o'r adroddiad ansawdd gofal ymlaen o fewn 28 diwrnod i'w gwblhau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd yr arolygiad hwn yn un llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arolygu arferol. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 12 Mehefin 2018 am oddeutu pum awr. Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- Arsylwi ar arferion
- Siarad â rhai o'r plant, rhai o'r rhieni a rhai o’r staff
- Dosbarthu holiaduron AGC i rieni a staff
- Darparu adborth dros y ffôn i'r personau cofrestredig ar 17 Gorffennaf 2018.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd i blant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Personau cofrestredig** | **Wendy Rudd**<br>**Pamela Davies** |
| **Personau â gofal** | **Pamela Davies**<br>**Wendy Rudd** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy i dair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8.55am a 11.55am o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 1.15pm a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Iau** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **19 Mai 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Gorffennaf 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Llefydd a ariennir** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg, ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |